Gwirfoddoli Cymru
Volunteering Wales

WCVA
CGGC

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Prif Grant Gwirfoddoli Cymru – Dyfarniadau Cylch 2

Mudiad	Disgrifiad o'r Prosiect	Grant a ddyfarnwyd
Cymdeithas y Cadeiryddion	Ein nod yw sefydlu rhwydwaith o wirfoddolwyr i roi cymorth cymheiriaid i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion yng Nghymru. Yn aml, mae cadeirio yn rôl unig sydd yn gofyn llawer. Byddwn ni'n gweithio i recriwtio, hyfforddi a datblygu Cadeiryddion er mwyn cefnogi pobl eraill mewn rolau cadeirio.	£47,243.86
Ategi	Bydd Ategi yn sefydlu 6 grŵp o wirfoddolwyr ag anghenion ychwanegol yn Rhondda Cynon Taf yn ôl eu hardaloedd lleol. Byddant yn rhoi cymorth cymheiriaid gwirfoddol i'w gilydd, yn adeiladu ar eu cryfderau ac yn defnyddio asedau mewn cymunedau lleol i gyflawni nodau unigol a nodau a rennir sy'n gwella eu llesiant ac ansawdd eu bywydau.	£49,809.40
Radio Cymunedol BGfm	Bydd yr arian sydd wedi'i ddyfarnu yn mynd tuag at staffio a swyddog cymorth gwirfoddolwyr. Bydd y swydd yn gwella cyfleoedd gwirfoddoli gyda'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol o osod ail stiwdio i helpu i hyfforddi ac annog pobl i ymhél yn fwy â'i gilydd. Bydd hyn yn helpu gydag ynysu, llesiant meddyliol, dysgu, pasio sgiliau ymlaen, cwrdd â ffrindiau newydd a gwneud ein cymuned yn lle mwy positif i fod ynddi.	£39,673.44

Y Groes Goch Brydeinig	Bydd y Groes Goch Brydeinig yn cynnig cyfleoedd cyffrous i grŵp amrywiol o bobl wirfoddoli mewn tîm ymateb i argyfwng newydd yn Rhondda Cynon Taf. Byddant yn gweithio ochr yn ochr â'r gwasanaethau brys i ddarparu cymorth emosiynol ac ymarferol ar gyfer y rheini sydd wedi'u heffeithio gan drychineb. Bydd gwirfoddolwyr yn ennill sgiliau a phrofiadau sy'n cynyddu eu hunanhyder a'u cyflogadwyedd.	£25,000.00
Circus Eruption	Mae'r grant hwn yn ein galluogi i gydnabod a gwobrwyo ein gwirfoddolwyr anhygoel ymhellach. Bydd yn caniatáu i ni ddarparu cyfleoedd a hyfforddiant unigryw a fydd yn gwella eu profiad ac yn gwella ansawdd y gwasanaeth sydd mor werthfawr i'r bobl ifanc a'r cymunedau rydyn ni'n gweithio gyda nhw. Diolch.	£50,000.00
Cyngor ar Bopeth Rhondda Cynon Taf	Bydd Cyngor ar Bopeth Rhondda Cynon Taf (CARCT) yn sefydlu eu prosiect Dysgu, Cysylltu a Ffynnu (LCT). Bydd hyn yn cynyddu sgiliau, cyflogadwyedd a llesiant pobl yn Rhondda Cynon Taf, drwy gynnig cyfleoedd gwirfoddoli newydd a mwy o gymorth, trwy greu academi gwirfoddolwyr a chyflogi cydlynydd gwirfoddolwyr.	£48,168.32

Coetir Anian	Bydd 50 o bobl ifanc o ganolbarth Cymru yn cael eu cyflwyno i brosiect Gwirfoddoli dros Natur. Bydd pob un ohonyn nhw'n dod i'n safle natur ym Mwlch Corog am 6 diwrnod ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cysylltu â natur yn ogystal â thasgau ymarferol. Byddant yn derbyn hyfforddiant sgiliau ac yn adeiladu portffolio dysgu i fynd adref â nhw.	£49,962.00
Gwasanaeth Gwirfoddoli Discovery	Byddwn ni'n defnyddio'r cyllid hwn i gael gwared â rhwystrau a chynorthwyo oedolion anabl i gymryd rhan mewn gwirfoddoli gyda chefnogaeth myfyrwyr gwirfoddol hyfforddedig. Trwy gynnig gwirfoddoli 'sy'n gyfeillgar i fyfyrwyr', rydyn ni'n agor llygaid myfyrwyr i'r pethau gwych y gall gwirfoddoli eu cynnig iddyn nhw ac yn eu rhoi ar lwybr gwirfoddoli gydol oes.	£49,897.76
GISDA	Rydym yn hynod falch o dderbyn cyllid gan CGGC a fydd yn ein galluogi i ysbrydoli ag annog pobl ifanc digartref, bregus ac o dan anfantais i wirfoddoli a chael profiadau bywyd a gwaith gwerthfawr a fydd yn eu cynorthwyo i symud ymlaen i fyw yn annibynnol.	£48,141.00

Home-Start Sir y Fflint	Gan weithio i gael gwared â'r rhwystrau i wirfoddoli, rydyn ni'n cyflwyno cyfleoedd newydd i gefnogi ein gwaith gwerthfawr gyda theuluoedd lleol. Eisiau cynyddu nifer y bobl sy'n gwirfoddoli gyda Home-Start Sir y Fflint. Gyda dull mwy hyblyg o gynorthwyo, ein nod yw gwneud y profiad gwirfoddoli yn fwy gwerth chweil.	£49,375.55
Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol	Mae sgiliau llythrennedd da yn helpu ar bob cam o fywyd, o addysg a chyflogaeth i iechyd a hapusrwydd. Mae'r cyllid hwn yn galluogi'r Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol i weithio ochr yn ochr â gwirfoddolwyr mewn pantrïau a phrosiectau bwyd ledled Caerdydd, Casnewydd a Merthyr i gael cymorth ac adnoddau llythrennedd at deuluoedd.	£48,688.93
Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol NYAS / NYAS Cymru	Bydd 'Ochr yn Ochr' Castell-nedd Port Talbot yn cefnogi pobl ifanc sy'n gadael gofal eu hawdurdod lleol trwy eu paru â mentor gwirfoddol o'u cymuned leol â phrofiadau bywyd a diddordebau personol tebyg. Bydd y parau yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu sgiliau pwysig ar gyfer bod yn annibynnol, magu hyder, hunan-barch a helpu i greu rhwydweithiau lleol cryfach er mwyn lleihau unigrwydd ymhlith pobl sy'n gadael gofal.	£50,000.00

Cymdeithas Gymunedol Yemenïaidd Casnewydd (NYCA)	Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i gyflogi cydlynydd gwirfoddolwyr a fydd yn trefnu, yn rheoli ac yn gwobrwyo gwirfoddolwyr NYCA. Bydd hyn yn helpu NYCA i ddefnyddio'u hadnoddau yn well ac yn cynyddu nifer y gwirfoddolwyr, gan wella ansawdd eu chwaraeon, dysgu a'u gweithgareddau yn y gymuned.	£46,442.50
Canolfan Adnoddau Cymunedol Rasa	Mae Canolfan Adnoddau Cymunedol Rasa yn gyfleuster a redir gan y gymuned. Er mwyn datblygu'r ganolfan, mae angen gwirfoddolwyr arnom i helpu i gyflawni prosiectau sy'n diwallu anghenion y gymuned. Bydd y grant hwn yn rhoi'r gallu i ni recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr a fydd yn cynnal yr ased cymunedol hwn.	£24,600.00
Sgiliau a Gwirfoddoli Cymru (SVC)	Mae SVC wrth eu boddau i dderbyn cyllid gan Brif Grant Gwirfoddoli Cymru i gefnogi ein prosiect gwirfoddoli gyda Heddlu De Cymru. Bydd y cyllid hwn yn caniatáu i ni recriwtio, gwirio a hyfforddi gwirfoddolwyr i weithio ar fentrau sy'n ceisio gwneud Caerdydd, a'r ardaloedd amgylchynol, yn gymunedau mwy diogel a chydlynus.	£43,977.12

Ambiwlans Sant Ioan Cymru	Gwirfoddolwyr yw enaid Ambiwlans Sant Ioan Cymru. Maen nhw'n cynnig hyfforddiant cymorth cyntaf ac yn rhoi cymorth cyntaf achubol mewn cymunedau ledled Cymru. Bydd y grant hwn yn ein galluogi i recriwtio gwirfoddolwyr newydd, cynyddu amrywiaeth ein cymuned wirfoddol ac yn cynnig hyfforddiant gwerthfawr i'n huwch-wirfoddolwyr ar arweinyddiaeth a rheolaeth.	£50,000.00
Neuadd y Frenhines Arberth	Trwy recriwtio Rheolwr Gwirfoddoli newydd, gallwn ni alluogi mwy o lawer o bobl i gymryd rhan mewn profiadau celfyddydol o ansawdd uchel drwy wirfoddoli, drwy leihau'r rhwystrau i gymryd rhan ar lefel unigol. Ein nod yw lleihau ynysigrwydd, cynyddu sgiliau newydd a datblygu ymdeimlad cryfach o le i bawb.	£31,612.48
The Wallich	Bydd Grant Gwirfoddoli Cymru yn cyflwyno unigolyn dynodedig i sicrhau cyfleoedd o ansawdd uchel i bob gwirfoddolwr, a fydd yn cael ei annog a'i gefnogi i ddysgu sgiliau newydd a gwella ei lesiant. Bydd pobl sy'n cael eu cefnogi gan The Wallich yn gwella eu hyder a'u rhagolygon gyrfa, gan helpu i gyflawni gweledigaeth y mudiad i ddifa digartrefedd.	£49,897.76

Volunteering Matters	Trwy wirfoddoli, bydd pobl hŷn yn arwain newid mewn wyth cymuned ledled Blaenau Gwent a Sir y Fflint dros ddwy flynedd. I ddechrau, bydd gwirfoddolwyr yn cael eu recriwtio fel Trefnwyr Gwirfoddol. Byddant yn ymhél â'u cymuned ehangach, yn nodi unrhyw anghenion nad ydynt wedi'u diwallu ac yn recriwtio gwirfoddolwyr eraill er mwyn cynyddu gweithgareddau a arweinir gan wirfoddolwyr sy'n ceisio trechu unigrwydd ac ynysigrwydd.	£49,549.30
Welshpool & Llanfair Light Railway Preservation Co. Ltd	Byddwn ni'n recriwtio Swyddog Ymgysylltu Cymunedol am ddwy flynedd. Bydd ef neu hi'n adolygu ein rhaglenni gwirfoddoli a sicrhau ein gwydnwch hirdymor drwy recriwtio gweithlu mwy amrywiol a mwy o faint o wirfoddolwyr, a rhoi mwy o bwyslais ar bobl leol. Drwy gyflwyno gwell sesiynau cynefino, gwell hyfforddiant a rhoi mwy o gydnabyddiaeth i wirfoddolwyr, bydd gwirfoddolwyr yn fwy cysylltiedig.	£24,528.00